

Cynnig i ganiatáu amrywiad penodiad i Icosa Water Services Limited i gynnwys safle o'r enw Ffordd Treftadaeth, Brymbo

	<b>Manylion</b>
<b>Gwneuthurwr Cais</b>	Icosa Water Services Limited (“ <b>Icosa Water</b> ”)
<b>Manylion y Safle</b>	Ffordd Treftadaeth, Brymbo, Wrecsam (“ <b>y Safle</b> ”)
<b>Gwasanaethau</b>	Dŵr yn Unig
<b>Penodai dŵr presennol</b>	Hafren Dyfrdwy Cyfyngedig (“ <b>Hafren Dyfrdwy</b> ”)
<b>Trefniadau cyflenwi arfaethedig</b>	Cytundeb cyflenwad swmp gyda Hafren Dyfrdwy.
<b>Maen prawf</b>	Heb ei wasanaethu
<b>Cwsmer Cartref</b>	70
<b>Cwsmeriaid Busnes</b>	0
<b>Datblygwr</b>	Taylor Wimpey UK Limited
<b>Amcangyfrif o ddyddiad cwblhau'r safle</b>	Rhagfyr 2023
<b>Crynodeb o'r ymgynghoriad</b>	Ymgynghoriad statudol a gynhelir o dan adran 8(3) Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (“ <b>WIA91</b> ”) i ganiatáu amrywiad i Icosa Water i'w benodiad yn gwmni dŵr drwy gynnwys y Safle yn ei ardal cyflenwi dŵr. Amrywio penodiad Hafren Dyfrdwy fel cwmni dŵr hefyd drwy eithrio'r Safle o'i ardal cyflenwi dŵr. O ganlyniad, Icosa Water fydd y cwmni dŵr ar gyfer y Safle.
<b>Dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau</b>	Dylid anfon sylwadau neu wrthwynebiadau i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost at <a href="mailto:Licensing@ofwat.gov.uk">Licensing@ofwat.gov.uk</a> neu'n ysgrifenedig a'u hanfon at dîm trwyddedu NAV, Centre City Tower, 7 Hill Street, Birmingham, B5 4UA.  Rhaid i Ofwat dderbyn ymatebion dim hwyrach na <b>17.00</b> ar <b>30 Awst 2022</b> .

Gellir cael rhagor o wybodaeth am sut i wneud sylwadau neu wrthwynebiadau, gan gynnwys gwybodaeth am sut y caiff gwybodaeth gyfrinachol ei thrin, gan Ofwat yn y cyfeiriad uchod neu yn <http://www.ofwat.gov.uk/foi/>.

Dim ond at ddiben yr ymgynghoriad hwn y bydd Ofwat yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth yn unol ag amserlen cadw Ofwat ac ni fyddwn yn ei rhannu gydag unrhyw drydydd parti oni bai bod rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i wneud hynny. I gael rhagor o wybodaeth gweler Polisi Preifatrwydd Ofwat yn ein [Cynllun Cyhoeddi](#).

## 1. Ein hasesiad o'r cais hwn

### Ein dull

Mae'r mecanwaith penodiadau newydd ar camrywiadau a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol<sup>1</sup> yn rhoi cyfle ar gyfer mynediad ac ehangiad i'r sectorau dŵr a charthffosiaeth drwy ganiatáu i un cwmni ddisodli'r sawl a benodwyd yn barod fel darparwr gwasanaethau dŵr a/neu garthffosiaeth ar gyfer ardal benodol. Gall y mecanwaith hwn gael ei ddefnyddio gan gwmnïau newydd i ymuno â'r farchnad a hefyd gan benodeion presennol i ehangu eu busnesau.

Gallwch gael rhagor o fanylion am ein dull o asesu ceisiadau am Benodiadau Newydd ac Amrywiada ("NAVs") [yma](#).

### Statws heb ei wasanaethu y Safle

I fod yn gymwys o dan y maen prawf heb ei wasanaethu, rhaid i ymgeisydd ddangos, ar yr adeg y gwneir y penodiad neu'r amrywiad, nad yw'r un o'r safleoedd yn ardal y penodiad arfaethedig yn cael ei wasanaethu gan y sawl sydd wedi'i benodi eisoes.

Mae Icosa Water wedi darparu llythyr gan Hafren Dyfrdwy, dyddiedig 6 Rhagfyr 2021, sy'n cadarnhau nad yw'r Safle yn cynnwys unrhyw asedau dŵr, ac felly mae'n fodlon bod y Safle'n bodloni'r meini prawf heb ei wasanaethu. Mae'r Safle yn safle maes glas. Mae mapiau a lluniau o'r awyr yn dangos nad oes unrhyw eiddo o fewn ffin y Safle ar hyn o bryd.

O ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan Icosa Water a Hafren Dyfrdwy, rydym yn fodlon y gellir ystyried y Safle yn un heb ei wasanaethu.

### Pris

Mae Icosa Water yn cynnig cyfateb y taliadau i gwsmeriaid ar y Safle i rai Hafren Dyfrdwy, ni fydd yn cynnig gostyngiad.

### Lefelau gwasanaeth

Mae'n ofynnol i bob penodai o dan amodau ei drwydded gyhoeddi'r Wybodaeth Graidd i Gwsmeriaid ar gyfer ei gwsmeriaid cartref a sicrhau ei bod ar gael. Rydym wedi asesu Cod

---

<sup>1</sup> Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer penodiadau newydd wedi'i nodi yn WIA91. Mae adran 7 WIA91 yn nodi'r meini prawf ar gyfer gwneud penodiad neu amrywiad. Mae adran 8 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud y penodiad neu'r amrywiad hwnnw.

Ymarfer Cwsmeriaid arfaethedig Icosa Water, a'n barn ni yw ei fod o safon briodol. Ein barn ni yw na fyddai cwsmeriaid ar y Safle yn waeth eu byd o ran cwmpas Cod Ymarfer Cwsmeriaid arfaethedig Icosa Water nag y byddent pe bai Hafren Dyfrdwy yn gwmni dŵr y cwsmeriaid.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Fel rhan o'r broses ymgeisio mae Ofwat wedi ymgysylltu â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr ("**CCW**"). Safbwynt CCW yw y dylai penodiadau newydd ac amrywiadau ddod â buddion i gwsmeriaid ar y safle NAV arfaethedig. Mae CCW yn disgwyl i benodeion newydd roi prisiau, lefelau gwasanaeth neu warantau gwasanaeth i ddefnyddwyr sy'n cyfateb neu, yn ddelfrydol, yn well â rhai'r cwmnïau dŵr a/neu garthffosiaeth presennol. Mae CCW wedi datgan ei fod yn fodlon bod Icosa Water, fel penodai newydd sefydledig, yn cynnig prisiau a lefelau gwasanaeth i gwsmeriaid ar ei safleoedd NAV sy'n cyfateb neu'n well na'r rhai a gynigir gan y cwmnïau dŵr a/neu garthffosiaeth presennol a fyddai fel arall yn gwasanaethu'r safle. Felly, mae CCW yn cytuno ag asesiad Ofwat na fydd cwsmeriaid ar y Safle yn waeth eu byd os cânt eu gwasanaethu gan Icosa Water ac felly, ar y cyfan, mae'n cefnogi'r amrywiad penodiad arfaethedig.

Mae CCW hefyd wedi ystyried yr effaith ar gwsmeriaid presennol pan fydd safle NAV yn cael ei gymeradwyo. Mae'n nodi bod yna gost bosibl mewn rhai achosion ar filiau dŵr a/neu garthffosiaeth blynyddol y cwsmeriaid hyn. Er bod y gost hon yn fychan iawn ar sail safleoedd unigol, nid yw CCW yn glir ynglŷn â manteision ehangach y drefn NAV ar gyfer cwsmeriaid presennol, yn enwedig wrth i nifer y safleoedd ym mhob ardal bresennol gynyddu a'r costau cronus gynyddu.

Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn fodlon bod Icosa Water yn deall y rhwymedigaethau o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2016 (fel y'u diwygiwyd) a Chyfarwyddyd y Diwydiant Dŵr (Gwybodaeth Cyflenwyr) 2021. Felly nid oes gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau i Ofwat symud ymlaen i ymgynghori a phenderfynu ar geisiadau a gyflwynwyd gan Icosa Water<sup>2</sup>.

Yn ystod ein hasesiad o gais Icosa Water cododd Cyfoeth Naturiol Cymru ymholiadau gydag Icosa Water ynglŷn â manylion y Safle. Aethpwyd i'r afael â'r holl ymholiadau hyn ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon i ni symud ymlaen i ymgynghoriad.

Mae Icosa Water wedi cadarnhau y bydd yn ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â chynllun rheoli adnoddau dŵr i Gymru ac mae wedi nodi'r sylwadau a dderbyniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â Dŵr Cymru Cyfyngedig yn darparu gwasanaethau carthffosiaeth ar gyfer y Safle. Mae Icosa Water yn deall, ac yn ymatebol i, yr amgylchiadau

---

<sup>2</sup> Ymgynghorir yn ffurfiol hefyd â Chyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ar y cynigion, gan eu bod ar y rhestr o sefydliadau y mae'n rhaid ymgynghori â hwy yn ffurfiol fel y nodir yn adran 8(4)(b) WIA91.

penodol sy'n ymwneud â safleoedd y mae'n bwriadu eu gwasanaethu yng Nghymru a'r cydestun rheoleiddiol y bydd yn gweithredu ynddo yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethau a strategaeth Llywodraeth Cymru ac unrhyw ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Icosa Water.

Yn ddiweddar cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol newydd ar gyfer Ofwat ([SPS](#)) yn y Senedd a disgwylir iddo ddod i rym yn gynnar ym mis Hydref 2022. Mae Ofwat yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein polisi NAV yn cael ei gymhwyso'n effeithiol, yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn yr SPS newydd, ar gyfer ceisiadau am amrywiadau yng Nghymru yn y dyfodol.

## Effaith ar gwsmeriaid presennol

Wrth ystyried a fydd cwsmeriaid ddim ar eu colled, fe wnaethom hefyd ystyried effeithiau posibl yr amrywiad hwn ar y prisiau y gallai cwsmeriaid presennol Hafren Dyfrdwy eu hwynebu. Mae'r cyfrifiad o reidrwydd yn dibynnu ar ystod o ragdybiaethau, ac mae'n amlwg bod anawsterau wrth feintioli'r effaith. Felly mae angen defnyddio set symlach o ffigurau. Rydym wedi mynegi'r effaith mewn termau 'fesul bil' er mwyn ceisio mesur yr effaith bosibl mewn ffordd hawdd ei deall.

Rydym wedi asesu maint posibl yr effaith hon drwy gymharu faint y gallai Hafren Dyfrdwy fod wedi disgwyl ei gael mewn refeniw o wasanaethu'r Safle yn uniongyrchol, pe bai'n gwasanaethu'r Safle, gyda'r refeniw y gallai ei ddisgwyl o'r trefniant arfaethedig gydag Icosa Water.

Rydym yn amcangyfrif cynnydd blynyddol posibl o £0.05 ar filiau dŵr cwsmeriaid presennol Hafren Dyfrdwy os byddwn yn caniatáu'r amrywiad hwn i Icosa Water. Mae hyn unwaith y bydd y Safle wedi'i adeiladu'n llawn.

Nid yw'r amcangyfrifiad hwn yn ystyried y buddion ehangach posibl i gwsmeriaid sy'n deillio o arbedion effeithlonrwydd deinamig a gyflawnir o ganlyniad i'r broses gystadleuol i ennill safleoedd.

Felly, rydym o'r farn y byddai caniatáu'r amrywiad hwn i Icosa Water yn cael effaith ariannol fach iawn ar filiau cwsmeriaid ac y gallai fod o fudd i gwsmeriaid.

## Y gallu i ariannu a chyflawni ei swyddogaethau'n briodol

Mae dyletswydd statudol arnom i sicrhau y gall penodeion effeithlon ariannu'r gwaith o gyflawni eu swyddogaethau'n briodol. Pan fydd cwmni'n gwneud cais am benodiad newydd neu amrywiad, rhaid iddo ein bodloni ei fod yn gallu cyflawni'r holl ddyletswyddau a rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â bod yn gwmni dŵr neu garthffosiaeth penodedig.

Rydym wedi ystyried refeniw a chostau'r Safle mewn perthynas â darparu gwasanaethau dŵr pe bai'r amrywiad perthnasol yn cael ei ganiatáu.

- Yn dilyn ein hadolygiad, rydym yn fodlon bod y Safle yn dangos hyfywedd ariannol digonol o dan ein hasesiad safonol.
- Rydym yn fodlon bod y sicrwydd ariannol sydd gan Icosa Water ar waith yn bodloni ein gofynion sylfaenol.

Ar y sail hon, ein barn ni yw bod y risg na fydd y Safle hwn yn ariannol hyfyw yn fach ac o ganlyniad rydym yn fodlon ar hyn o bryd y byddai Icosa Water yn gallu ariannu ei swyddogaethau os caniateir yr amrywiad.

## 2. Casgliad a'r camau nesaf

Wrth asesu cais Icosa Water, rydym wedi ystyried manteision cyffredinol penodiadau newydd ac amrywiadau. Ein barn ni yw y byddai ein dwy egwyddor polisi allweddol yn cael eu bodloni yn yr achos hwn, gan na fyddai cwsmeriaid yn waeth eu byd, a byddai Icosa Water yn gallu ariannu, a chyflawni, ei swyddogaethau. Rydym hefyd wedi ystyried effeithiau caniatáu'r amrywiad arfaethedig ar gwsmeriaid presennol Hafren Dyfrdwy.

Ar hyn o bryd rydym yn bwriadu caniatáu'r amrywiad o dan y maen prawf heb ei wasanaethu. Yn amodol ar ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori mewn ymateb i'r hysbysiad ymgynghori hwn, bydd Ofwat yn penderfynu a ddylid caniatáu'r amrywiad penodiad a nodir uchod ai peidio.

### 3. Map o'r safle



(c) Crown copyright, All rights reserved. 2021. License number 0100031673



<p>PLAN REFERRED TO IN THE VARIATION OF THE APPOINTMENTS OF ICOSA WATER SERVICES LIMITED AND HAFREN DYFRDWY CYFYNGEDIG AS WATER UNDERTAKERS, MADE BY THE WATER SERVICES REGULATION AUTHORITY ON .....</p>	 <p><small>Technical &amp; Development Services (Southern) Ltd 17 Mill Lane, St. Gwynn Street Hulliton, West Sussex, BN13 5AD Tel: 01403 274 588</small></p>	<p>HERITAGE WAY, BRYMBO, LL11 5TF WATER AREA SERVICE PLAN SCALE 1:1250</p> <p>Working Number: 21-030-WSA-01</p> <p>Rev: B</p>
---	--	---

21-030 Heritage Way\TDS Drawings\Drawings\21-030-WSA-01.dwg TDS 22/12/2021 13:48:06